Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Llyfr gwaith saith

Iechyd a diogelwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Rhagfyr 2017

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
gofalcymdeithasol.cymru

@GofCymdeithasol

© 2018 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Gweithlyfr 7**:

Iechyd a diogelwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Bydd y gweithlyfr hwn yn eich helpu i ystyried y gofynion cyfreithiol ar gyfer iechyd a diogelwch mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol a gwybod beth yw eich cyfrifoldebau chi a chyfrifoldebau eich cyflogwr o ran cynnal diogelwch yn y gwaith. Gallwch ddefnyddio'r gweithgareddau rydych chi'n eu cwblhau yn y gweithlyfr fel tystiolaeth tuag at gyflawni Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Fframwaith Sefydlu). Gellir ei gyfrif hefyd tuag at y cymhwyster y byddwch angen ei gwblhau'n ddiweddarach ar gyfer eich ymarfer.

Cynnwys

7.1 Iechyd a diogelwch yn y gweithle 5

7.2 Asesiadau risg ar gyfer iechyd a diogelwch 6

7.3 Diogelwch tân 10

7.4 Symud a thrafod a symud a gosod 12

7.5 Cymorth cyntaf brys 15

7.6 Atal a rheoli haint 16

7.7 Diogelwch bwyd 20

7.8 Sylweddau peryglus 22

7.9 Diogelwch yn y lleoliad gwaith 23

7.10 Rheoli straen 25

7.11 Myfyrio ar y gweithlyfr 27

7.12 Polisïau a gweithdrefnau 28

7.13 Myfyrio ar leoliad ymarfer 29

7.1 Iechyd a diogelwch yn y gweithle

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Fel gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol rydych yn gyfrifol am gymryd gofal rhesymol ohonoch chi'ch hun ac eraill yn y **gweithle**. Er bod gan eich **cyflogwr** rai cyfrifoldebau cyfreithiol i sicrhau eich bod chi a'r unigolion rydych chi'n gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, mae gennych chi gyfrifoldeb hefyd. Mae iechyd a diogelwch yn gyfrifoldeb i bawb.

Gweithgaredd dysgu

Yn y grid isod amlinellwch y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a / neu gyfrifoldebau cyflogwyr a gweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. (Efallai na fydd yna ddeddfwriaeth benodol ar gyfer pob maes yn y grid. Pan nad oes, dim ond amlinellu cyfrifoldebau cyflogwyr a gweithwyr sydd angen i chi ei wneud).

Maes	Deddfwriaeth	Cyfrifoldebau cyflogwyr	Cyfrifoldebau gweithwyr
Iechyd a diogelwch cyffredinol			
Asesiad risg			
Diogelwch tân			
Symud a thrafod			
Symud a gosod			
Cymorth cyntaf brys			
Atal a rheoli haint			
Diogelwch bwyd			
Sylweddau peryglus			
Diogelwch yn y lleoliad gwaith			
Rheoli straen			

7.2 Asesiadau risg ar gyfer iechyd a diogelwch

Mae asesu risg yn rhan hanfodol o gynnal iechyd a diogelwch yn y gweithle ac o sicrhau lles a diogelwch unigolion ac eraill.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

Rydych newydd gael swydd fel gweithiwr gofal yn cefnogi unigolion yn eu cartrefi eu hunain. Rydych wedi bod yn cysgodi aelod arall o staff, Stacey.

Un o'r rhai rydych chi'n ei helpu yw Mrs Pearce, gan ei helpu i ymolchi a gwisgo yn y bore. Mae hi angen defnyddio hoist yn yr ystafell ymolchi ond nid ydych wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar symud a lleoli eto. Mae Stacey yn dweud wrthych am beidio â phoeni am hyn, ac y bydd hi'n dangos i chi beth i'w wneud wrth fynd ymlaen.

Wrth helpu Mrs Pearce gyda'r hoist mae'n colli ei chydbwysedd, yn syrthio a tharo ei phen. Mae Stacey yn gwneud yn siŵr ei bod hi'n iawn ac yn dweud wrthych chi y bydd hi'n rhoi gwybod i'r swyddfa am y digwyddiad yn ddiweddarach ond rydych chi'n sylwi nad yw hi'n cofnodi'r digwyddiad yn y log.

Nodiadau'r gweithlyfr

1. Pa gamau fyddech chi'n eu cymryd?

2. Beth ddylai Stacey fod wedi'i wneud yn wahanol?

3. Beth ddylech chi fod wedi'i wneud pan ofynnodd Stacey i chi helpu Mrs Pearce i symud gan ddefnyddio'r hoist?

Mae'n bwysig bod y gweithle'n cael ei gadw mor ddiogel â phosibl i chi a'r unigolyn. Byddai hyn yn cynnwys cynnal asesiadau risg ffurfiol ac o ddydd i ddydd. Mae yna wahanol fathau o ddamweiniau, digwyddiadau, argyfyngau a pheryglon iechyd a diogelwch.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

Rhowch dair enghraifft o'r gwahanol fathau o ddamweiniau, digwyddiadau, argyfyngau a pheryglon a allai ddigwydd yn y gweithle.

Damweiniau

Digwyddiadau

Argyfyngau

Peryglon

Beth yw'r camau pwysig y dylech eu cymryd wrth nodi perygl yn y gweithle?

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Cynhelir asesiadau risg iechyd a diogelwch ar gyfer unrhyw weithgareddau neu dasgau a allai fod yn beryglus. Byddai yna asesiad risg ffurfiol ar gyfer cynorthwyo Mrs Pearce i symud gan ddefnyddio hoist. Bydd disgwyl i chi wybod am yr holl asesiadau risg ysgrifenedig yn eich lleoliad gwaith a'u dilyn. Bydd disgwyl i chi gynnal asesiadau risg anffurfiol hefyd gydol eich diwrnod gwaith e.e. byddech yn cadw llygad am beryglon baglu bob amser, fel llanast neu garpedi neu fatiau rhydd ac ati mewn ystafelloedd.

Rhowch dair enghraifft arall o asesiadau risg iechyd a diogelwch a fyddai'n cael eu cynnal yn y gweithle.

Nodiadau'r gweithlyfr

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r corff gwarchod annibynnol cenedlaethol ar gyfer iechyd, diogelwch a salwch cysylltiedig â gwaith. Mae'n gweithredu er lles y cyhoedd i leihau marwolaethau ac anafiadau difrifol cysylltiedig â gwaith mewn gweithleoedd ledled Prydain. Ar asesu risg mae'n dweud:

'When considering the care needs of an individual, everyday activities are often identified that will benefit their lives, but also put them at some level of risk. This requires a balanced decision to be made between the needs, freedom and dignity of the individual and their safety – with the aim of enabling them to live fulfilled lives safely rather than providing reasons for restricting them.'[1]

1 Health and Safety in Care Homes | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2014

Gweithgaredd dysgu

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Siaradwch â'ch rheolwr am y pethau sydd angen eu hystyried wrth asesu a rheoli risg wrth weithio gydag unigolion a'r gweithdrefnau sy'n rhaid i chi eu dilyn. Os nad ydych wedi'ch cyflogi eto, gadewch hwn yn wag a dychwelwch ato eto.

Nodiadau'r gweithlyfr

7.3 Diogelwch tân

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Mae tân yn berygl difrifol iawn. Fel gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol mae angen i chi wybod beth i'w wneud i atal tanau rhag digwydd a beth i'w wneud pe bai tân. Mae gan sefydliadau weithdrefnau penodol i'w dilyn ar gyfer atal tân ac amddiffyn rhag tân/ Dylech fod wedi cael hyfforddiant ar hyn. Mae'n bwysig eich bod chi'n ymwybodol o'ch cyfrifoldebau chi a chyfrifoldebau'ch cyflogwr mewn perthynas â diogelwch tân.

Gweithgaredd dysgu

Rydych newydd ddechrau cefnogi Gwyn sy'n ysmygu'n drwm. Ar ôl cael strôc yn ddiweddar mae ei allu i symud a'i sgiliau corfforol yn gyfyngedig. Wrth ymweld ag ef rydych chi'n sylwi ar lwch sigarét ar ei ddillad a marciau llosgi ar freichiau ei gadair. Mae ei ystafell yn tueddu i fod yn llawn llanast ac mae yna bentwr o bapurau newydd ger ei gadair bob amser.

Nodiadau'r gweithlyfr

1. Beth yw'r risgiau yma?

2. Pwy allai ddarparu cymorth neu gyngor ychwanegol i gadw Gwyn yn ddiogel?

3. Beth allech chi ei wneud i helpu Gwyn i ddeall y risgiau?

4. Gyda pha bethau ymarferol y gellid helpu Gwyn i leihau'r risgiau?

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

5. I bwy fyddech chi'n rhoi gwybod am eich pryderon a sut fyddech chi'n gwneud hyn?

Gweithgaredd dysgu

Yn y lle isod nodwch y prif ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch tân a chrynhowch eich cyfrifoldeb chi a chyfrifoldeb eich cyflogwr mewn perthynas â hyn.

Deddfwriaeth	Eich cyfrifoldeb chi	Cyfrifoldeb eich cyflogwr

7.4 Symud a thrafod a symud a lleoli

Mae symud a thrafod yn rhan allweddol o ddiwrnod gwaith y rhan fwyaf o weithwyr, o gario bagiau siopa trwm rhywun i symud cyfarpar. Gall eich swydd gynnwys symud a lleoli pobl hefyd, fel yn astudiaeth achos Mrs Pearce.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

Disgrifiwch ystyr y termau canlynol

- **Symud a thrafod**

- **Symud a lleoli**

Gall arferion symud a thrafod / lleoli gwael arwain at

- boen cefn ac anhwylderau cyhyrysgerbydol, a all arwain at fethu gweithio
- damweiniau symud a thrafod – a all anafu'r person sy'n cael ei symud a'r gweithiwr
- anesmwythyd a diffyg urddas i'r person sy'n cael ei symud.

Mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod sut i symud a thrafod / lleoli'n ddiogel fel nad ydych yn brifo'ch hun neu unigolion rydych chi'n ei helpu.

Mae angen i chi gwblhau hyfforddiant penodol cyn helpu unigolion i symud neu leoli neu gyda gweithgareddau sy'n cynnwys symud neu drafod, a bydd eich cyflogwr yn trefnu hyn.

Fodd bynnag, mae yna rai egwyddorion pwysig yn ymwneud â symud a thrafod sydd angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt ar ddechrau eich cyflogaeth fel na fyddwch yn rhoi eich hun mewn perygl o anaf.

Yn y lle isod, amlinellwch brif egwyddorion trafod diogel â llaw.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Nodiadau'r gweithlyfr

Gweithgaredd dysgu

Gofynnwch i'ch rheolwr gofnodi sut mae wedi arsylwi arnoch chi'n symud a thrafod a / neu leoli yn ddiogel yn eich gwaith bob dydd. Trafodwch beth rydych wedi'i ddysgu o'r hyfforddiant a gawsoch a sut rydych wedi rhoi egwyddorion a thechnegau symud a thrafod / lleoli diogel ar waith. Os nad ydych wedi'ch cyflogi eto, gadewch hwn yn wag a dychwelwch ato eto.

Nodiadau'r gweithlyfr

Adborth rheolwr

Gweithgaredd dysgu

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Mae Dafydd wedi gofyn i chi nôl bocs o gemau sydd ar ben y cwpwrdd yn ei ystafell wely. Mae'n dweud ei fod wedi sefyll ar ben cadair i geisio nôl y bocs ond nad oedd yn gallu cyrrraedd.

Nodiadau'r gweithlyfr

1. Beth yw'r risgiau yn y sefyllfa hon?

2. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd?

7.5 Cymorth cyntaf brys

Disgwylir i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol fynychu cwrs cymorth cyntaf achrededig i gwblhau'r maes dysgu hwn os yw'n berthnasol i'w swydd. Diweddarwch eich log cynnydd fel bo'n berthnasol.

Os nad ydych wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ni ddylech geisio rhoi unrhyw fath o gymorth cyntaf. Dylech ofyn am gymorth yn syth.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

7.6 Atal a rheoli haint

Yn wahanol i glefydau fel clefyd y galon a diabetes, gall clefydau heintus ledaenu o un person i'r llall. Fel gyda phob salwch, mae atal yn well na gwella. Er mwyn derbyn gofal diogel ac effeithiol mae'n rhaid i reoli ac atal haint fod yn rhan o ymarfer bob dydd a chael ei weithredu'n gyson gan bawb.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

a. Cwblhewch y tabl canlynol i ddangos eich bod chi'n deall

- y prif wahaniaethau rhwng bacteria, firysau, ffyngau a pharasitiaid
- y mathau cyffredin o salwch / heintiau maent yn eu hachosi
- effaith bosibl y rhain ar yr unigolion rydych chi'n gweithio gyda nhw.

Llwybrau i haint	Salwch / haint cyffredin	Effaith bosibl
Bacteria		
Firysau		
Ffyngau		
Parasitiaid		

b. Beth yw ystyr y termau

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

- Haint

- Cytrefu

- Haint systemig

- Haint cyfyngedig

c. Rydych yn ymweld â Mr Williams sydd wedi bod yn teimlo'n anhwylus ers ychydig ddyddiau. Ar ôl holi sut mae'n teimlo rydych yn ei helpu i fynd i'r toiled, ac yn sylwi bod sedd y toiled yn fudr, felly'n ei glanhau cyn iddo ei ddefnyddio. Yna, rydych chi'n ei helpu i gymryd ei feddyginiaeth amser cinio ac yn mynd i baratoi cinio.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Nodiadau'r gweithlyfr

1. Beth yw'r risgiau posibl o ledaenu haint?

2. Amlinellwch beth fyddai'n ymarfer hylendid da wrth gynorthwyo Mr Williams yn ystod yr ymweliad hwn.

3. Pa gyfarpar amddiffyn personol fyddech chi'n ei ddefnyddio i atal lledaenu haint a phryd fyddech chi wedi'i ddefnyddio yn yr achos hwn?

4. Mae golchi dwylo yn rhan hanfodol o ddarparu gofal diogel ac o atal croes-heintio.

Rhestrwch yr adegau pan fo angen golchi dwylo.

Yn y lle isod gofynnwch i'ch rheolwr gofnodi sut mae wedi arsylwi ar eich **techneg golchi dwylo**.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Adborth rheolwr

7.7 Diogelwch bwyd

Mae hyfforddiant diogelwch bwyd yn ofyniad cyfreithiol i unigolion sy'n paratoi, trafod neu goginio bwyd. Os yw eich swydd yn cynnwys paratoi neu weini bwyd mae'n bwysig eich bod yn cynnal y safonau hylendid llymaf, yn enwedig wrth weithio gyda phobl fregus agored i niwed.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

Nodiadau'r gweithlyfr

1. Nodwch rai o'r peryglon diogelwch bwyd a all godi wrth baratoi, gweini, clirio a storio bwyd a diod.

2. Eglurwch pam mae'n rhaid i arwynebau, offer a chyfarpar fod yn lân ar gyfer paratoi bwyd.

3. Pa ddillad amddiffyn personol ddylech chi wisgo wrth drafod bwyd?

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

4. Rydych yn gweithio gyda Ruth sydd ag anabledd dysgu ysgafn. Wrth ei helpu i ddatblygu ei rhestr siopa wythnosol rydych yn mynd gyda hi i'r gegin i weld beth sydd angen ei brynu. Mae Ruth yn mwynhau bwyta tatws pob gyda llawer o lenwadau gwahanol i ginio ac ar gownter y gegin rydych chi'n gweld pecyn o ham wedi'i agor gyda phryfaid o'i amgylch, a chaws wedi llwydo. Pan rydych chi'n gofyn i Ruth agor yr oergell i weld a oes mwy yno gan fod angen iddi eu taflu, rydych chi'n gweld bod yna gyw iâr heb ei goginio sydd wedi mynd heibio'i ddyddiad defnyddio ac sydd wedi gollwng ychydig ar ben ei phecyn newydd o ham.

    - Beth yw'r problemau o ran hylendid bwyd?

    - Sut allech chi helpu Ruth i storio a gwaredu bwyd yn fwy diogel.

5. Eglurwch beth allai ddigwydd os nad yw mesurau diogelwch bwyd yn cael eu dilyn wrth ddarparu bwyd a diod i unigolion yn eich lleoliad/ mewn lleoliad gwaith.

6. Nodwch gamau y byddai'n rhaid i chi eu cymryd i ddysgu am alergeddau bwyd a'u hystyried.

7.8 Sylweddau peryglus

Bydd yr adran hon yn eich helpu chi i ddangos eich bod yn gwybod sut i storio, defnyddio a gwaredu sylweddau peryglus yn ddiogel.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

Nodiadau'r gweithlyfr

1. Beth yw ystyr y termau 'sylweddau peryglus' a 'rheoli sylweddau peryglus'?

2. Rhestrwch y mathau o sylweddau peryglus a allai fod yn y gweithle.

3. Mewn trafodaeth gyda'ch rheolwr amlinellwch beth yw'r trefniadau ar gyfer storio, defnyddio, ymdrin â sylweddau peryglus sy'n gollwng a gwaredu sylweddau peryglus yn eich lleoliad gwaith. Gan feddwl am Mr Williams, pa sylweddau peryglus ddylech chi fod wedi'u gwaredu ar ôl ei helpu yn y toiled a sut fyddech chi'n gwneud hyn.

Gwnewch nodiadau o'r drafodaeth isod.

7.9 Diogelwch yn y lleoliad gwaith

Mae mesurau diogelwch da yn bwysig i sicrhau eich bod chi a'r unigolion rydych chi'n gweithio gyda nhw, yn ddiogel. Bydd gan eich sefydliad weithdrefnau diogelwch y dylech fod yn gyfarwydd â nhw i'ch diogelu chi ac eraill rydych chi'n gweithio gyda nhw.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

Nodiadau'r gweithlyfr

1. Beth allai fod yn risgiau posibl i ddiogelwch yn y lleoliad gwaith?

2. Bydd rhai swyddi'n cynnwys gweithio ar eich pen eich hun. Beth yw'r risgiau penodol ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain a sut y dylid eu rheoli?

3. Gall ymddygiad ymosodol fod yn anodd a niweidiol. Rhestrwch y mathau o **ymddygiad ymosodol** y gallai gweithwyr ei brofi gan unigolion y tu allan i'w lleoliad gwaith.

4. Mae Bethan newydd gychwyn ei shifft ac mae'n dod wyneb yn wyneb ag ymwelydd blin yn y coridor sy'n chwilio am aelod o staff i wneud cwyn am y ffordd mae'r staff yn darparu gofal i'w ffrind. Mae'n flin iawn ac yn dechrau gweiddi ar Bethan. Sut ddylai Bethan ymdrin â'r sefyllfa?

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

5. Os ydych wedi'ch cyflogi eisoes, disgrifiwch rai o'r mesurau diogelwch sydd gan eich lleoliad gwaith.

Yn y lle isod siaradwch â'ch rheolwr am y ffyrdd rydych chi'n gweithio i sicrhau diogelwch yn y gweithle. Os nad ydych wedi'ch cyflogi eto, gadewch hwn yn wag a dychwelwch ato eto.

Adborth rheolwr

7.10 Rheoli straen

Mae bod o dan straen yn rhan arferol o fywyd. Gall fod yn rym cadarnhaol sy'n ein helpu i weithredu, teimlo'n fwy egnïol a chyflawni pethau ond gall fod yn negyddol hefyd os ydyn ni'n teimlo ein bod ni'n cael ein llethu, o dan bwysau gormodol ac wedi'n gorlwytho gyda gwaith. Gall teimladau o'r fath effeithio ar ein lles ac achosi salwch. Mae'n bwysig cydnabod straen yn ein bywydau a sut i'w reoli os ydym dan straen.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Gweithgaredd dysgu

Gall straen effeithio arnom ni'n emosiynol, yn gorfforol ac ar y ffordd rydym ni'n ymddwyn h.y. ein hiechyd a lles meddyliol. Rhestrwch bum arwydd cyffredin o straen o dan bob pennawd.

Sut allech chi fod yn teimlo	Sut allech chi gael eich effeithio'n gorfforol	Sut allech chi ymddwyn
1.		
2.		
3.		
4.		
5.		

Nodiadau'r gweithlyfr

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

1. Beth yw'r gwahanol fathau o sefyllfaoedd a all achosi straen? Rhestrwch bump isod

2. Meddyliwch am amser pan oeddech chi dan straen. Beth wnaethoch chi i helpu'ch hun i ymdopi ag ef?

3. Mae'n bwysig eich bod chi'n gallu deall pryd yr ydych chi o dan straen fel y gallwch gyflwyno mesurau i'ch helpu i'w reoli

   Bydd rheoli straen yn dda yn lleihau effeithiau negyddol straen ar eich iechyd a'ch lles. Trafodwch gyda'ch rheolwr pa gymorth allai fod ar gael os ydych chi dan straen. Gwnewch nodiadau yma.

7.11 Myfyrio ar y gweithlyfr

Gweithgaredd dysgu

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Mae myfyrio'n rhan hanfodol o ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y lle isod, nodwch dri pheth rydych wedi'i ddysgu o gwblhau'r gweithlyfr hwn a sut y byddwch chi'n rhoi hyn ar waith.

Nodiadau'r gweithlyfr



7.12 Polisïau a gweithdrefnau

Os ydych eisoes yn gweithio i sefydliad bydd gan eich cyflogwr rai polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r adran hon.

Rhestrwch y rhain yn y lle isod.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Nodiadau'r gweithlyfr

7.13 Myfyrio ar leoliad ymarfer

Siaradwch â rheolwr yn eich lleoliad gwaith ynglŷn â sut rydych wedi rhoi iechyd a diogelwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar waith.

Ysgrifennwch adroddiad myfyriol byr a gofynnwch i'r rheolwr gofnodi crynodeb yn y lle isod.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Nodiadau'r gweithlyfr

Adborth rheolwr

Defnyddiwch y lle isod i gofnodi unrhyw drafodaethau rhyngoch chi a'ch asesydd cymwysterau.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Nodiadau trafodaeth gyda'r asesydd cymwysterau

Os yw tystiolaeth o'r gweithlyfr yn cael ei defnyddio tuag at y cymhwyster mae'n rhaid i'r asesydd gwblhau'r datganiad isod.

I'w defnyddio gan aseswyr cymhwyster

Datganiad gweithiwr newydd

Rwy'n cadarnhau bod y dystiolaeth a roddwyd ar gyfer y gweithlyfr yn ddilys ac yn cynrychioli fy ngwaith i'n gywir.

Llofnod y dysgwr

Dyddiad

Datganiad y rheolwr

Rwy'n cadarnhau bod y gweithiwr newydd wedi cyflawni holl ofynion y gweithlyfr gyda'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

Llofnod y rheolwr

Dyddiad

Datganiad asesydd cymwysterau

Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni holl ofynion y gweithlyfr gyda'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Cynhaliwyd asesiad o dan yr amodau penodedig ac mae'r dystiolaeth yn ddilys, gwir, dibynadwy, cyfredol a digonol.

Llofnod asesydd cymwysterau

Dyddiad